

PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Iau, 25 Mai 2023

Cadeirydd: Cynghorydd R.Phillips

Is-gadeirydd: Cynghorydd D.Thomas

Cynghorwyr: W.Carpenter, N.Goldup-John, J.Henton, C.Lewis, R.Mizen, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds a/ac D.Whitelock

**Aelodau
Cyfetholedig sy'n
Pleidleisio:** M.Caddick

**Swyddogion sy'n
Bresennol** I.Guy, C.Millis, D.Holder-Phillips, H.Thomas, K.Thomas, R.Crowhurst, J.Burge, M.Daley, K.Windsor-Brown, D.Holder-Phillips, S McCluskie a/ac A Thomas

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 7, 8 a 9 ar Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 a 13 Ebrill 2023 fel cofnodion gwir a chywir.

4. **DIWEDDARIAD AR BRESENOLDEB YN YR YSGOL**

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Holodd yr aelodau am y cydberthynas rhwng statws prydau ysgol am ddim a phresenoldeb disgyblion. Cadarnhaodd swyddogion fod presenoldeb disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn waeth na disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Llongyfarchodd yr aelodau'r tîm ar faint o waith a wnaed wrth nodi'r cydberthyniadau ac roeddent yn edrych ymlaen at ganlyniadau'r gwaith.

Holodd yr aelodau a oedd Estyn wedi cysylltu â nhw a beth oedd eu hymagwedd at absenoldeb. Dywedodd swyddogion fod Estyn yn poeni bod ein cyfradd adfer presenoldeb COVID wedi bod yn arafach nag awdurdodau lleol eraill. Cynhaliwyd sgysiau ag Estyn ar nifer o faterion, gan gynnwys safonau, presenoldeb a diogelu; bydd Estyn yn trafod presenoldeb gydag ysgolion unigol fesul ysgol.

Holodd aelodau a oedd teuluoedd yn parhau i gymryd gwyliau y tu allan i amser tymor oherwydd pwysau ariannol. Dywedodd swyddogion na fu cynnydd yn nifer y gwyliau a gymerwyd gan deuluoedd unigol ond bu cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n cymryd gwyliau yn ystod y tymor. Fodd bynnag, nododd swyddogion nad yw Castell-nedd Port Talbot yn dirwyo rhieni am gymryd un gwyliau os yw presenoldeb fel arall yn dda.

Mae'r adroddiad er gwybodaeth ac fe'i nodwyd.

5. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Rhaglen Seren

Rhoddodd y swyddog drosolwg o'r adroddiad fel y manylwyd arno yn yr agenda a ddosbarthwyd.

Nododd yr aelodau ei bod yn braf clywed am y cydweithio rhwng Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot ond gofynnwyd a oedd cydweithio hefyd â Choleg Gŵyr a Choleg Sir Gâr? A oes dadansoddiad o gefndiroedd a math o gefndiroedd myfyrwr ar y

rhaglen; a oes cymorth ariannol ar gael a pha gymorth sydd ar waith ar gyfer yr ysgytiad diwylliannol y gall disgyblion ei brofi? Cadarnhaodd swyddogion fod gwaith yn cael ei wneud ar y cyd ac mae Castell-nedd Port Talbot yn rhan o ranbarth Canolbarth Cymru sydd hefyd yn cynnwys Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae Coleg Sir Gâr yn rhan o hwb Sir Gaerfyrddin/Ceredigion/Sir Benfro ac mae Castell-nedd Port Talbot yn gweithio gyda nhw i sicrhau y gall myfyrwyr gael mynediad at sesiynau lle bo hynny'n briodol. O ran cyllid, mae perthynas agos â'r Tîm Ehangu Cyfranogiad. Mae cyn-fyfyrwyr yn darparu cefnogaeth i fyfyrwyr drwy gydol y broses. Rhaglen am ddim yw Seren sydd ar gael i ddisgyblion o bob cefndir. Gwneir gwaith agos gydag ysgolion i gefnogi disgyblion os oes angen cymorth ychwanegol.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth am hyblygrwydd y rhaglen. Dywedodd swyddogion fod myfyrwyr yn cael eu nodi gan athrawon, a'r disgybl sy'n penderfynu a hoffai gymryd lle yn y rhaglen neu beidio. Ym mlynnyddoedd 8 a 9, gall disgyblion gymryd rhan mewn cyfleoedd anffurfiol ac ymuno â rhaglen Llywodraeth Cymru yn ffurfiol ym mlwyddyn 10. Bydd athrawon yn gweithio gyda disgyblion i nodi unrhyw rwystrau i'r disgybl yn ymuno â'r rhaglen

Yn dilyn craffu, nododd yr aelodau'r eitem er gwybodaeth.

Cyllideb Trafnidiaeth Personol

Amlinellodd swyddogion yr adroddiad a ddisbarthwyd gyda'r agenda.

Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar lefel yr hyblygrwydd y byddai'r cynnig yn ei gynnig a'r manteision posib i unigolion, a gofynnwyd a fu unrhyw drafodaeth â Gweithredwyr Cludiant Cymunedol?

Cadarnhaodd y swyddog nad ydym yn gallu defnyddio grwpiau cludiant cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan elusennau ar hyn o bryd, ond gallai gweithredwyr cymunedol gymryd rhan os oeddent yn dilyn y broses gaffael. Gall hwn fod yn bwnc ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol, a bydd yn cael ei drafod gyda chydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd.

Holodd yr aelodau a fyddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ymgorffori yn y Gyllideb Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol mewn perthynas â chyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya sydd ar ddod, sy'n debygol o effeithio ar gostau gweithredu. Cadarnhaodd y swyddog fod hyn wedi'i nodi fel risg ychwanegol i'r gyllideb Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol a'i bod yn cael ei monitro'n ofalus ar hyn o bryd. Mae gweithredwyr yn

pryderu ond ar hyn o bryd nid yw'n glir sut y bydd hyn yn effeithio ar gostau yn y tymor hir.

Holodd yr aelodau am drefniadau wrth gefn pe bai amgylchiadau rhieni yn newid. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw argaeledd yn y system i gynllunio ar gyfer amgylchiadau annisgwyl.

Holodd yr aelodau a allai Gweithwyr Trafnidiaeth weithio gyda disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i'w galluogi i deithio i'r ysgol ar fws mini ysgol yn hytrach na mewn tacsis, byddai hyn yn uwchsgilio'r disgybl ac yn arbed arian yn y tymor hir. Cadarnhaodd swyddogion fod Gweithiwr Trafnidiaeth ychwanegol wedi'i gyflogi i weithio'n benodol gyda disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, ac mae'r gweithiwr eisoes wedi cael effaith ar ddisgyblion. Mae'r Rhaglen Hyfforddiant Teithio yn gweithio gyda disgyblion a chanddynt Ddatganiad/Gynllun Datblygu Unigol i'w cefnogi i symud ymlaen i addysg bellach ac fel sgil bywyd.

Holodd yr aelodau am yr effaith tymor hir o ran lleihau'r cwmnïau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau a dywedodd fod risg y gall rhai disgyblion fod ar eu colled o hyd. Nododd y swyddog fod y sefyllfa wedi bod yn anodd yn dilyn y pandemig ond roedd yn gobeithio bod y sefyllfa bellach yn sefydlogi; mae cydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd yn cysylltu â gweithredwyr gyda'r nod o lenwi'r holl gontractau, bydd y cynnig hwn yn helpu i lenwi unrhyw fylchau. Roedd strategaethau eraill yn cynnwys rhannu llwybrau a dyblu tacsis. Mae opsiwn i edrych ar gerbydau presennol y cerbydlu.

Gofynnodd yr aelodau a oedd adborth ar gael gan Awdurdodau Lleol eraill sydd wedi defnyddio cyllidebau teithio personol. Cadarnhaodd swyddogion fod y system hon wedi cael ei defnyddio yn Lloegr ers nifer o flynyddoedd ac roedd Trefynwy, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf yn cydweithio ar gynllun tebyg iawn tua phedair blynedd yn ôl, dangosir ei fod yn boblogaidd ar lwybrau anodd a gyda rhieni lle nad yw opsiynau cludiant o'r cartref i'r ysgol arferol yn gweithio iddyn nhw.

Roedd yr aelodau'n frwdfrydig am y posibilrwydd o ddatblygu cerbydlu mewnol, ond gofynnwyd a oedd unrhyw waith arall wedi'i wneud i ystyried y mater hwn yn gyfannol. Cadarnhaodd y swyddog fod hwn bob amser yn opsiwn os yw'r amgylchiadau'n caniatáu.

Cadarnhaodd y Swyddog fod Trafnidiaeth Cymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn cynnig pasys am ddim i ddisgyblion

ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Pwrpas y rhaglen Hyfforddiant Teithio yw galluogi plant i gael annibyniaeth, felly gallai hyn gynnwys cerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Mwy o Leoedd Cynlluniedig - Caniatâd i Ymgynghori
Rhoddodd y Swyddog drosolwg byr o'r adroddiad.

Holodd yr aelodau a fyddai cynnig darpariaeth ASD Blaenhonddan wedi cael ei gyflwyno o hyd pe bai'r cynnig ar gyfer Ysgol Cwm Tawe wedi cael ei gytuno. Cadarnhaodd y swyddog fod y cynnig hwn yn ychwanegol at unrhyw gynnig cynharach.

Holodd yr aelodau am y term 'ad-drefnu anstrwythurol' fel y'i defnyddir ar dudalen 70 yr adroddiad. Cadarnhaodd swyddogion fod y term hwn yn cyfeirio at ddefnyddio gofod o fewn yr ysgol ond nid oedd yn gwneud unrhyw newidiadau adeileddol i'r ysgol.

Holodd yr aelodau a fyddai newidiadau adeileddol yn Ysgol Maes Y Coed yn disodli unrhyw wariant arall a gynlluniwyd o'r gyllideb gyfalaf. Cadarnhaodd swyddogion nad oes unrhyw gynlluniau wedi'u dadleoli gan y gwariant hwn. Mae'r ddarpariaeth hon yn flaenoriaeth. Gellir defnyddio'r gyllideb gyfalaf ar gyfer gwaith adnewyddu ond ar raddfa hylaw ar gyfer eitemau fel toiledau a thoeon newydd.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r uned ASD arfaethedig ym Mlaenhonddan yn cael ei goruchwyllo gan Bennaeth yr ysgol arbennig bresennol neu Bennaeth Blaenhonddan ac a ellid cynyddu'r ddarpariaeth i helpu i ddiwallu'r angen presennol. Eglurodd swyddogion y byddai'r uned ASD yn rhan o'r ysgol ac y byddai'n cael ei goruchwyllo gan Bennaeth Blaenhonddan. Byddai'r uned yn ddarpariaeth agored sydd ar gael i bob plentyn yn y fwrdeistref gydag angen dysgu ychwanegol sy'n bodloni'r meini prawf. Byddai derbyniadau'n cael eu gwneud drwy Banel Derbyn yr Awdurdod Lleol. Cadarnhaodd swyddogion nad ydynt yn gallu cynyddu'r ddarpariaeth ym Mlaenhonddan a bydd darpariaeth 16 lle ychwanegol yn cael ei chynllunio ar gyfer safle arall o fewn y fwrdeistref.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

6. **EITEMAU BRYD**

Nid oedd unrhyw eitemau bryd.

CADEIRYDD